Ysgol Gyfun Gymunedol

# Penweddig

## Pecyn gwybodaeth

# Athro/Athrawes i hyfforddi drwy'r Brifysgol Agored -TAR Uwchradd

## Rhaglen 2 flynedd

**Graddfa Cyflog:**
**Statws Athro Digymhwyster**
**Pwynt 1 (£23,309)**

**Dyddiad cau: 10 Mai 2026**

Cymreictod

Parch

Ymdrech

## SWYDD ATHRO/ATHRAWES TAR Uwchradd – Drwy'r Brifysgol Agored

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd hon ym Mhenweddig.

Dyma gyfle i hyfforddi fel athro uwchradd drwy'r Brifysgol Agored TAR. Mae'r rhaglen hon wedi ei hariannu'n llawn ac yn rhaglen 2 flynedd o hyd. Dyma'r pynciau posib sydd ar gael er mwyn dilyn y cwrs TAR.

**Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Dylunio a Thechnoleg, Cyfrifiadura/TGCH ac Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg)**

Mae Penweddig yn ysgol lwyddiannus, sydd â hanes o welliant a datblygiad. Mae nifer sylweddol o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau TGAU a Safon Uwch sydd yn uwch nag ysgolion cyffelyb. Mae ymddygiad ein disgyblion yn dda iawn, ac mae ganddynt ymagwedd bositif ac ysgogol at ddysgu. Cyniga'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol a hynny mewn amgylchedd Gymraeg a Chymreig. Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol. Cydnabuwyd hyn yn ystod Arolwg Estyn llwyddiannus diweddar yr ysgol yn Hydref 2024:

*"Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol." (Estyn Hydref 2024)*

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref brifysgol fywiog Aberystwyth. Ymfalchïwn yng nghyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf sydd gennym ym Mhenweddig. Golyga hynny y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu mewn ystafell ddysgu bwrpasol. Am flas o'r ysgol ewch i ymweld â gwefan yr ysgol neu wylio ein fideo hyrwyddo.

Os oes angen arnoch unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni naill ai drwy ffonio'r ysgol (01970 639499), neu drwy e-bost at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk .

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o gyd-destun y swydd.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 10 Mai 2026.**

**Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos yn cychwyn 18 Mai 2026.**

Yn gywir,

*Clive Williams*

Pennaeth

## DISGRIFIAD SWYDD

## Cwrs TAR – Hyfforddi fel athro uwchradd drwy'r Brifysgol Agored

Dyma'r pynciau posib ar gyfer y rhaglen hon:

***Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Dylunio a Thechnoleg, Cyfrifiadura / TGCH, Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg)***

**Graddfa Gyflog: Statws Athro Digymhwyster Pwynt 1 (£23,309)**

**CEFNDIR**

Mae'r ysgol yn cynnig cyfle arbennig i unigolyn trwy raglen bartneriaeth TAR (2 flynedd) a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru drwy ddarpariaeth y Brifysgol Agored. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn addysgu un o'r pynciau sydd wedi eu nodi uchod trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at raddedigion sydd unai'n gweithio ar hyn o bryd ac eisiau newid gyrfa, neu sydd â phrofiad yn y gorffennol o weithio mewn amgylchedd gyda phlant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys cynorthwywyr addysgu a hyfforddwyr dysgu sy'n dymuno symud ymlaen yn eu gyrfa yn ogystal â swyddogion ieuenctid. Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd yn eu blwyddyn olaf yn y brifysgol hefyd.

Mae hwn yn gyfnod arbennig o gyffrous i ymuno ag Ysgol Gyfun Penweddig, gan y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn cael y cyfle i hyfforddi gyda staff profiadol ac arloesol mewn maes dysgu sydd ar flaen y gad mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru ac wrth greu adnoddau ysbrydoledig. Y mae gan Ysgol Gyfun Penweddig enw da yn genedlaethol ac yn ysgol sydd yn ymroddedig i ddarparu'r safonau uchaf o addysgu a dysgu. Wrth ddod yn aelod o staff yn Ysgol , rydych yn ymuno gyda thîm ac yn wir, teulu o bobl arbennig iawn. Y mae i'r ysgol gymuned a naws deuluol nodedig lle mae perthynas agos o ymddiriedaeth, gofal a pharch rhwng pobl ifanc a'r staff. Mae yma elfen gref o gydweithio a chefnogaeth barod ymysg y tîm o staff, lle mae pob aelod o staff yn deall pa mor allweddol yw eu rôl hwy yn llwyddiant ac yn lles ein plant, ein pobl ifanc, a'n gilydd fel oedolion proffesiynol.

Rydym yn edrych am unigolyn sydd yn angerddol am gefnogi gweledigaeth yr ysgol a thrwy hynny, wneud gwahaniaeth mawr yn addysg ac ym mywyd ein pobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd deilydd y swydd hon yn cael cefnogaeth lawn gan yr ysgol a'i phobl wrth iddynt ddatblygu i fod yn addysgwr hyderus, arloesol a chreadigol.

Bydd angen i'r ymgeisydd / ymgeiswyr llwyddiannus fodloni gofynion y Brifysgol Agored Cymru, a sicrhau lle ar y rhaglen cyn iddynt gael eu penodi i'r swydd hon. (Mae'r gofynion wedi eu nodi isod)

**DISGRIFIAD O'R RHAGLEN**

Gofynion mynediad ar gyfer llwybr TAR i addysgu a ariennir yn llawn gan y Brifysgol Agored

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddal y canlynol, o leiaf:

- Safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd
- Safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn naill ai Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Gyntaf
- Gradd anrhydedd lawn yn y DU (neu gyfwerth). Rhaid i chi feddu ar radd sydd ag o leiaf 50% o berthnasedd i'r pwnc os ydych am addysgu i ddod yn athro ysgol uwchradd (dysgwyr 12-16 oed). I'r ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais pwnc Cymraeg, nid oes rhaid i'ch gradd fod yn y maes hwn o reidrwydd os gallwch ddangos eich bod yn defnyddio'r iaith yn rhugl, oherwydd efallai y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi yn dibynnu ar ddyfnder eich gwybodaeth.
- Mae angen i ymgeiswyr fod ar gael i ymrwymo i gontract amser llawn (nid yn ystod y tymor yn unig) tan ddiwedd y rhaglen ym mis Gorffennaf 2027 a bydd yn ofynnol iddynt fod wedi'u lleoli yn yr ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Am unrhyw gwestiynau neu wybodaeth bellach am y rhaglen e-bostiwch Tîm TAR Cymru ar TAR-Cymru@open.ac.uk neu ewch i TAR | Cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion | Y Brifysgol Agored (open.ac.uk)

## MANYLEB PERSON

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | • Gradd berthnasol mewn pwnc sy'n berthnasol i'r maes/meysydd cwricwlaidd penodol | |
| PROFIAD | • Gwybodaeth bynciol eang a pherthnasol<br>• Y gallu a'r parodrwydd i addysgu'r pwnc hyd at TGAU. | • Profiad o addysgu neu weithio gyda phobl ifanc. |
| SGILIAU A RHINWEDDAU PERSONOL | • Y gallu i gyfathrebu'n llawn drwy'r Gymraeg<br>• Sgiliau rhyngbersonol da<br>• Ymrwymiad i feithrin cefnogaeth i holl ehangder Cymreictod a'r pwnc drwy'r ysgol gyfan<br>• Y gallu i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ymgyrraedd at eu potensial llawn o fewn awyrgylch gyfeillgar a hunan ddisgybledig<br>• Ymarferydd hunan feirniadol sydd am fod yn flaengar mewn cynlluniau gwella ysgol barhaus<br>• Trefnus a chyda'r gallu i weithio gyda thîm o athrawon mewn blaengarwch gwella adran ac ysgol | • Sgiliau TGCh<br>• Y gallu a'r parodrwydd i hybu proffil yr Ysgol o fewn y gymuned leol a chenedlaethol |
| ERAILL | • Cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth<br>• Gwiriad DBS manwl | |

**DIOGELU: DATGANIAD CYNGOR SIR CEREDIGION**
Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt.

## GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion Addysg | Ceredigion County Council Careers

## CYFWELD

Dyddiad cau: **10 Mai 2026**

Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos yn cychwyn **18 Mai 2026**

## CEREDIGION AC ABERYSTWYTH

### CEREDIGION



Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 71,500 (2021). Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion. Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.

### ABERYSTWYTH



Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, dros 80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.

Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.



Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 12,250, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.